# Ymateb i Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru Llywodraeth Cymru

**Ionawr 2016**

4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar | 5 Plas Fitzalan | Caerdydd | CF24 0ED

Ffôn: 03000 231 011 | Ffacs: 03000 231060

# Cyngor ar Bopeth yng Nghymru

Elusen a sefydlwyd ym 1939 yw Cyngor ar Bopeth. Ers hynny, rydym ni wedi rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â phob math o faterion bob dydd i unrhyw un sydd ei angen, o ddyled, arian a budd-daliadau lles i dai, cyflogaeth a pherthnasoedd.

Mae ein sesiynau addysg ariannol a rhaglenni cynyddu incwm hefyd yn helpu pobl i gymryd rheolaeth dros eu harian a sicrhau bod pobl mewn angen yn hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddyn nhw hawl iddo.

Yng Nghymru mae gennym ni rwydwaith o 19 Cyngor ar Bopeth lleol[1] - pob un ohonynt yn elusennau unigol, ac maen nhw'n cael eu staffio gan bron i 800 o wirfoddolwyr a staff cyflogedig ymroddgar.

Rydym ni'n dileu'r rhwystrau i gyngor drwy fynd i'r llefydd lle mae pobl ein hangen ni fwyaf, gan roi cyngor mewn 375 a mwy o leoliadau cymunedol yng Nghymru. Rydym ni'n cynnig gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein hefyd.

Bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr mae miliynau o bobl yn troi atom. Mae hyn yn rhoi golwg unigryw i ni ar eu hanghenion a'u pryderon. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgyrchu ar faterion pwysig, yn lleol neu genedlaethol. Felly, mewn un ffordd neu'r llall, rydym ni'n helpu pawb – nid dim ond y bobl hynny rydym ni'n eu cynorthwyo'n uniongyrchol.

[1] Mae Cyngor ar Bopeth yn newid. Rydym ni'n moderneiddio ein gwasanaeth i ymateb i anghenion wrth iddyn nhw newid ac i gyrraedd mwy o bobl. Fel rhan o'r broses hon bydd enw newydd ar gyfer y gwasanaeth – Cyngor ar Bopeth lleol yw'r enw ar ein canolfannau bellach.

# Crynodeb

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag allgáu ariannol yng Nghymru. Rydym yn cytuno'n gryf bod angen adolygu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddiwethaf drwyddi draw er mwyn helpu i sicrhau bod camau i hyrwyddo cynhwysiant ariannol ledled Cymru yn ystyried datblygiadau dros y saith mlynedd diwethaf, yn enwedig y pwysau ariannol diddiwedd sy'n wynebu llawer o aelwydydd yng Nghymru yn sgil diwygiadau lles.

Rydym yn cytuno â'r tair thema graidd yn y Strategaeth ac yn cefnogi'n frwd nifer o'r ymrwymiadau, ond mae rhai ymrwymiadau eraill yn eang iawn. Hefyd, yn achos llawer ohonynt, diffyg manylion ynghylch sut byddant yn cael eu gwireddu. Heb weld Cynllun Cyflawni mae'n anodd iawn asesu faint o'r ymrwymiadau fydd yn cael eu cyflawni.

Mae ein hymateb yn cynnwys asesiad manwl o'r Strategaeth ddrafft, ynghyd â nifer o argymhellion ar sut gellid gwella pethau yn ein tyb ni. Mae llawer o'r blaenoriaethau hyn wedi'u rhestru isod:

- Credwn y dylai'r pwyslais yn y Strategaeth drwyddi draw fod ar y rheini sy'n cael eu heffeithio waethaf, yn enwedig pobl sy'n byw mewn tlodi neu fod eu hamgylchiadau'n golygu eu bod yn fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ariannol. Mae cyllidebau cyfyngedig yn genedlaethol ac yn lleol yn golygu ei bod hi'n hollbwysig bod cymorth yn cael ei dargedu'n effeithiol ar y rhai sydd ei angen fwyaf.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Post Office Limited i fonitro effaith y rhaglen Trawsnewid Rhwydwaith ar faint o wasanaethau bancio, peiriannau codi arian di-dâl a gwasanaethau arian parod dros y cownter ledled Cymru.

- Cytunwn fod undebau credyd yn chwarae rhan bwysig wrth wella mynediad at gredyd fforddiadwy yng Nghymru, ond nid ydym yn credu mai nhw, neu fenthycwyr dielw eraill, yw'r unig ateb. Mae angen mwy o ddewis y pen hwn o'r farchnad fel bod pobl â'r anodau ariannol prinnaf yn gallu siopa o

amgylch fel defnyddwyr eraill. Dylai banciau a chymdeithasau adeiladu ddarparu cynhyrchion credyd fforddiadwy byrdymor sy'n fwy addas i anghenion y rheini ar incymau isel, fel sydd wedi digwydd gyda chyfrifon banc sylfaenol.

- Credwn ei bod hi'n hollbwysig cael trefniant mwy hirdymor ar gyfer darparu cymorth ariannol i bobl yng Nghymru sy'n wynebu argyfwng neu galedi arbennig. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i barhau â'r Gronfa Cymorth Dewisol hyd at ddiwedd tymor nesaf y Cynulliad.

- Mae angen edrych ar sut mae awdurdodau'r sector cyhoeddus a sefydliadau dielw eraill, yn cynnwys cymdeithasau tai, yn rheoli dyled. Byddem yn argymell bod y Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru i adolygu eu harferion casglu dyledion a gwneud gwelliannau lle gwelir bod eu hangen. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru, CLlLC a Cartrefi Cymunedol Cymru..

- Credwn ei bod hi'n arbennig o bwysig bod unrhyw gyfeiriadur newydd sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yn cynnwys darparwyr cyngor ar ddyled sydd wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn unig. Gall cyngor ar ddyled sydd heb ei reoleiddio achosi niwed mawr, yn enwedig i'r rheini sydd mewn sefyllfaoedd bregus a/neu'r rheini sydd mewn sefyllfa ariannol enbyd eisoes. Mae sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaeth cyngor sy'n destun prosesau rheoleiddio a sicrhau ansawdd yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth mwyaf priodol i'w hanghenion.

- Byddem yn croesawu ymrwymiad penodol yn y Strategaeth i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol yn uniongyrchol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael addysg ariannol briodol fel rhan o'u cynllun gofal. Bydd yn hollbwysig hefyd fod yr adnoddau a ddefnyddir yn destun proses 'sicrhau ansawdd' a bod unrhyw sesiynau penodol dan ofal ymarferwyr priodol a medrus er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth anghywir.

- Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fydd yn cael eu sefydlu'n fuan sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei gydnabod fel ffactor sy'n cyfrannu at lesiant wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau llesiant lleol. Dylai cynlluniau o'r fath gynnwys codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cyngor sy'n destun proses sicrhau ansawdd

a sicrhau bod partneriaethau effeithiol yn cael eu sefydlu gyda darparwyr cyngor achrededig ym mhob ardal awdurdod lleol.

- Er mwyn cynnal darlun cywir o hyd a lled allgáu ariannol yng Nghymru, bydd angen cynnal ymchwil barhaus ymhlith defnyddwyr sy'n cynrychioli'r sefyllfa genedlaethol er mwyn helpu i olrhain cynnydd.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

---

**C1. Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol?**

Ydyn, gyda rhai amodau fel y nodir isod.

**Sylwadau:**

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno ein bod wedi gweld nifer o ddatblygiadau arwyddocaol sydd i'w croesawu mewn perthynas â mynd i'r afael ag allgáu ariannol yng Nghymru ers lansio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cynhwysiant Ariannol cyntaf yn 2009. Yn ystod y cyfnod hwnnw fodd bynnag, fel y nodir yn y Strategaeth, mae tirwedd economaidd a thirwedd polisi'r DU wedi newid yn sylweddol.

Er bod economi'r DU ar i fyny erbyn hyn, mae effaith y dirwasgiad diweddar, mesurau cyni parhaus Llywodraeth y DU, a newidiadau i bolisi a deddfwriaeth ers 2010 yn sgil hynny yn parhau i gael effaith sylweddol ar lesiant ariannol llawer o bobl yng Nghymru.

Mae Cyngor ar Bopeth lleol ledled Cymru wedi gweld newidiadau sylweddol yn y math o broblemau y mae pobl eisiau cyngor yn eu cylch dros y pedair blynedd diwethaf. Ers 2011-12, mae problemau'n ymwneud â budd-daliadau wedi cymryd lle problemau dyled fel y prif fath o broblemau y mae cleientiaid angen ein cymorth gyda nhw - **dyma yw bron i 4 o bob 10 problem sy'n cael cymorth gan y gwasanaeth ar hyn o bryd.** Mae'r math o broblemau dyled y mae pobl yn troi atom am gymorth yn eu cylch yn newid hefyd. Mae problemau credyd defnyddwyr yn uchel o hyd ond rydym yn gweld cynnydd yn y bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau hanfodol y cartref. Y dirywiad economaidd a chyfres o newidiadau i'r system budd-daliadau, nas gwelwyd eu tebyg ers degawdau, sydd wrth wraidd hyn i raddau helaeth.

Yn erbyn sefyllfa mor heriol, rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag allgáu ariannol yng Nghymru. Rydym yn cytuno'n gryf bod angen diwygio'r Strategaeth yn llwyr er mwyn helpu i sicrhau bod camau i hyrwyddo cynhwysiant ariannol ledled Cymru'n ystyried datblygiadau'r saith mlynedd diwethaf, yn enwedig y pwysau ariannol di-ddiwedd sy'n wynebu llawer o gartrefi yng Nghymru yn sgil y diwygiadau lles.

Cytunwn â'r tair thema graidd yn y Strategaeth ac rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth na ddylid ystyried bod y camau gweithredu o dan bob thema yn ymwneud â'r thema benodol honno'n unig. Er enghraifft, **rydym yn cefnogi'n arbennig y ffaith bod gwella gallu ariannol yn sail i'r holl themâu eraill yn y Strategaeth.**

Rydym yn gwerthfawrogi bod angen i'r strategaeth fod yn hollgynhwysol ac yn gymwys i bobl sydd ar wahanol rannau o'r sbectrwm cynhwysiant ariannol. Serch hynny, **credwn y dylai'r pwyslais drwyddi draw fod ar y rheini sy'n profi'r niwed mwyaf, yn enwedig pobl sy'n byw mewn tlodi neu bobl mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud nhw'n fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ariannol. Mae hyn yn debygol o gynnwys pobl sy'n derbyn budd-daliadau, tenantiaid tai cymdeithasol, pobl sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, rhieni unigol, pobl iau (yn enwedig y rhai heb gymorth teuluol uniongyrchol) a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.** Mae amgylchiadau penodol sy'n effeithio ar y garfan olaf hon yn cynnwys economi cyflog isel, costau byw uwch yn gyffredinol, mynediad gwael at wasanaethau digidol, a llai o gymorth drwy raglenni gwrthdlodi Llywodraeth Cymru gan fod y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. **Mae cyllidebau cenedlaethol a lleol cyfyngedig yn golygu ei bod hi'n hanfodol targedu cymorth at y rhai sydd ei angen fwyaf.**

Rydym yn cefnogi'n frwd nifer o ymrwymiadau yn y Strategaeth (*mewn rhai achosion rydym wedi awgrymu mân newidiadau neu wedi ymhelaethu arnynt – gweler y sylwadau manylach o dan bob cwestiwn*), yn cynnwys ymrwymiadau i:

- weithio gyda LINK ac eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith o osod peiriannau codi arian di-dâl, fel rhan o'r Rhaglen Cynhwysiant Ariannol LINK barhaus;
- gwella cyfeirio at y Gronfa Cymorth Dewisol a chael mwy o bartneriaid i'r Gronfa ;

- gweithio gyda'r sector Undebau Credyd i annog pobl i ddechrau Didynnu o'r Gyflogres;
- paratoi cyfeiriadur cywir, hygyrch a chyfredol ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth a chyngor *gyda sicrwydd ansawdd* yng Nghymru;
- ymestyn cymorth ariannol ar gyfer darpariaeth gwybodaeth a chyngor gyda sicrwydd ansawdd yn unig;
- nodi a hyfforddi staff rheng flaen o amrywiaeth o sefydliadau, yn cynnwys y gwasanaeth iechyd, i ddarparu gwasanaethau cyfeirio at wybodaeth gyfredol am wasanaethau cyngor *gyda sicrwydd ansawdd*;
- gweithio gyda'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) i fwrw rhagddi â'r camau gweithredu yn eu Strategaeth Galluogrwydd Ariannol Cymru;
- gwella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru o'r farn bod rhai o'r ymrwymiadau yn y Strategaeth, serch hynny, yn eang iawn. Hefyd, mae diffyg manylion ynghylch sut byddant yn cael eu gweithredu. Nodwn y bydd Cynllun Cyflawni'n cael ei baratoi maes o law yn 2016 i ategu'r Strategaeth (byddem yn croesawu gwybodaeth ynghylch a fydd y Cynllun yn destun ymgynghoriad a phryd mae'n debygol o gael ei gyhoeddi) a disgwyliwn y bydd rhagor o fanylion am gamau gweithredu penodol yn cael eu darparu yn y Cynllun hwn. Byddem yn disgwyl i'r Cynllun gynnwys cerrig milltir clir a chanlyniadau dymunol o ran yr hyn y gellir ac y dylid ei gyflawni bob blwyddyn hyd at 2020 (y cyfnod dan sylw yn y Strategaeth), a hefyd, lle bo'n berthnasol, y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Nodwn yr adroddir yn flynyddol ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu, ac rydym yn croesawu hyn, ond nid yw'n eglur sut bydd hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth wedi cael eu defnyddio i lywio'r Strategaeth, yn cynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015, ac yn wir ein tystiolaeth ni'n hunain, ond hoffem weld rhagor o fanylion ynghylch sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro yn y dyfodol. **Byddwn yn parhau i rannu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd ar gael drwy'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, sy'n benodol i Gymru a, lle bo'n briodol, data ar gyfer Lloegr. Serch hynny, rydym hefyd yn credu, er mwyn i ni allu cynnal darlun cywir o hyd a lled allgáu ariannol yng Nghymru, y bydd angen ymchwil barhaus ymhlith defnyddwyr sy'n cynrychioli'r sefyllfa genedlaethol er mwyn helpu i olrhain cynnydd.** Er enghraifft, ymwybyddiaeth a defnydd o wahanol gynhyrchion ariannol, yn ogystal â lefelau sgiliau a hyder wrth ymdrin â materion arian. Gallai hyn fod drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, ymchwil wedi'i theilwra neu, os yw'n berthnasol a bod data ystadegol gadarn ar gael ar gyfer Cymru, ffynonellau eilaidd (e.e. ymchwil a wnaed gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS)).

Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y Cynllun Cyflawni'n cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â phobl â nodweddion gwarchodedig. Byddem hefyd yn hoffi gweld camau gweithredu yn ymwneud â phobl sy'n profi'r niwed mwyaf neu sy'n fwy tebygol o brofi allgáu ariannol (fel y nodwyd yn gynharach – gallai'r cyfryw bobl fod yn wahanol i'r rheini â nodweddion gwarchodedig neu mae'n bosibl nad ydynt). Bydd angen i unrhyw waith monitro neu ymchwil roi dadansoddiad o gynnydd mewn perthynas â grwpiau targed gwahanol hefyd.

**C2. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wella'r broses o gael gafael ar gredyd fforddiadwy a gwasanaethau ariannol?**

Ydyn, i raddau – gweler y sylwadau isod.

**Sylwadau:**

Mae dylunio cynhyrchion a gwasanaethau ariannol sy'n gweddu'n well i anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr incwm isel yn rhan annatod o'r agenda cynhwysiant ariannol. Dros y ddegawd ddiwethaf mae amrywiaeth o gynhyrchion wedi cael eu datblygu i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn: cyfrifon banc sylfaenol, gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan undebau credyd a sefydliadau cyllid cymunedol (fel Moneyline Cymru), a chynlluniau yswiriant gyda rhent, i enwi dim ond rhai. Fodd bynnag, mae llwyddiant y cynhyrchion hyn wedi amrywio, a hynny o ran y nifer sy'n manteisio arnynt a lefel y defnydd ohonynt. Gallai hyn fod yn arwydd nad ydynt yn diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn o hyd, bod diffyg dealltwriaeth ynghylch sut maen nhw'n gweithio, diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o'u bodolaeth, neu bob un o'r uchod.

Mae llawer o'r ymrwymiadau yn y Strategaeth yn canolbwyntio ar gyfeirio at wahanol gynhyrchion a gwasanaethau neu godi ymwybyddiaeth ohonynt. Er bod gweithgareddau o'r fath yn bwysig, mae mynd i'r afael â defnydd isel yn ymwneud llawn cymaint â deall y rhesymau wrth wraidd hyn ag y mae â hysbysu pobl ynghylch pa gynhyrchion neu wasanaethau sydd ar gael. Mae modd defnyddio gwybodaeth o'r fath wedyn i helpu i ddatblygu atebion i oresgyn unrhyw rwystrau posibl. Cafwyd mwy a mwy o gydnabyddiaeth yn y blynyddoedd diwethaf o'r angen i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar ymddygiad ariannol, gyda gwaith diweddar yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) a

Sefydliad Young[2]. Mae siarad yn uniongyrchol â phobl ar incwm isel am yr hyn sy'n gyrru eu hymddygiad pan ddaw hi at arian a beth maent yn chwilio amdano neu ei angen mewn cynhyrchion ariannol, ynghyd â beth sy'n eu hatal rhag defnyddio'r cynhyrchion sydd ar gael eisoes, yn rhan hollbwysig o'r broses hon. **Byddem yn galw'n gryf ar Lywodraeth Cymru ac eraill i barhau â'r math hyn o ymgynghori er mwyn datblygu atebion mwy effeithiol i fynd i'r afael ag allgáu ariannol, a byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi yn hyn o beth.**

**Mae buddsoddi mewn meithrin gallu ariannol pobl i gynyddu eu hyder i newid i gynhyrchion a'r fath a'u defnyddio, ynghyd â mynd i'r afael â phryderon sydd ganddynt am gynhyrchion penodol, yr un mor bwysig.**

**Cyfrifon Trafodiadol**

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno bod cyfrifon banc trafodiadol yn gwneud cyfraniad pwysig at gynhwysiant ariannol. Ym mis Mawrth 2014 fe wnaethom ni gomisiynu ymchwil benodol i helpu i gael dealltwriaeth o'r defnydd o gyfrifon banc ledled Cymru[3]. Canfu'r ymchwil fod 6% o'r boblogaeth oedolion ddim yn bancio o hyd gyda chyfrannau uwch o bobl yn y grŵp incwm isaf (gradd gymdeithasol DE) (10%), a phobl sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor (11%), heb gyfrif cyfredol gyda banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.

Yn ogystal, dyw tua 1 ym mhob 5 o'r rheini â chyfrif banc (18%) ddim yn defnyddio debydau uniongyrchol. Y prif reswm a roddwyd am hyn oedd ei bod hi'n well gan bobl dalu biliau pan fyddant yn eu cael (55%), ond roedd bron i 1 ym mhob 10 yn poeni hefyd am ffioedd y banc (9%) neu'n dweud eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd cyllidebau wrth ddefnyddio debydau uniongyrchol (8%).

---

[2] 'Financial Capability in Wales 2015', ymchwil y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (Tachwedd 2015) a'r Young Foundation gyda defnyddwyr credyd cost uchel.
[3] Cynhelir yr Arolwg Omnibws Cymru Chwarterol gan Beaufort Research Ltd ac mae'n cynrychioli'r boblogaeth 16 oed a throsodd sy'n preswylio yng Nghymru. Cynhaliwyd cyfanswm o 1,012 cyfweliad rhwng 3 a 21 Mawrth 2014. Nid yw canfyddiadau'r ymchwil hon wedi'u cyhoeddi.

Mae hyn yn cefnogi ymchwil flaenorol a gynhaliwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru[4] gyda phobl sy'n byw ar gyllideb arian parod i raddau helaeth. Canfu'r ymchwil honno fod hunan-allgáu yn gyffredin yn achos defnyddio cyfrifon banc i'w llawn botensial. I lawer o'r rheini sy'n byw ar incwm isel mae cadw rheolaeth dros eu harian yn hollbwysig. Felly maent yn dewis talu gydag arian parod yn hytrach na gwneud hynny o arfer. Hefyd, mae rhai pobl yn drwgdybio banciau ac yn amheus ohonynt.

Fel y cydnabuwyd yn y Strategaeth bydd mwy fyth o bwysau ar lawer o ddefnyddwyr incwm isel i ddefnyddio cyfrifon banc dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig y rheini sy'n derbyn budd-daliadau, wrth i gredyd cynhwysol barhau i gael ei gyflwyno ledled y wlad. Rydym yn croesawu'r cytundeb diweddar rhwng Llywodraeth y DU a mwyafrif banciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr i gynnig cyfrifon banc sylfaenol newydd, heb unrhyw ffioedd na chosbau am fethu taliadau. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn.

Er hynny, mae ffordd bell i fynd o hyd i godi ymwybyddiaeth o gyfrifon o'r fath ymhlith y rheini a fyddai'n elwa fwyaf ar gael un o'r cyfrifon hyn a hefyd, efallai'n fwy hanfodol, i feithrin ymddiriedaeth rhwng banciau a phobl sy'n byw ar incwm isel ac yn ffafrio defnyddio arian parod, yn enwedig y rheini sydd wedi cael profiad gwael yn y gorffennol.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru o'r farn bod darparu cynhyrchion a gwasanaethau ariannol priodol sy'n fwy addas i anghenion defnyddwyr incwm isel yn rhan bwysig o'r jig-so i hyrwyddo cynhwysiant ariannol ehangach. Mae hefyd angen buddsoddi mewn cyngor ariannol a rhaglenni gallu ariannol, sy'n helpu i fagu hyder a dealltwriaeth pobl wrth ymdrin â materion a sefydliadau ariannol, er mwyn newid ymddygiad. **Credwn fod gan sefydliadau ariannol eu hunain rôl allweddol i'w chwarae. Dylai hyn gynnwys darparu hyfforddiant i gefnogi rhaglenni gallu ariannol sy'n cael eu cynnig gan bartneriaid yr ymddiriedir ynddynt mewn cymunedau lleol, yn ogystal â chael staff i gynnig cymorth wyneb yn wyneb pan fydd pobl yn agor cyfrif.** Gallai'r cam olaf hwn gynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau neges destun sydd ar gael i helpu pobl i oresgyn eu hofn o golli rheolaeth dros eu sefyllfa ariannol (fel mantolen y cyfrif yn wythnosol neu neges i'w rhybuddio eu bod wedi mynd i mewn i'w gorddrafft).

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd o'r farn fod gan ddarparwyr amgen y gellir ymddiried ynddynt, fel undebau credyd a Swyddfeydd Post, y potensial i wneud cyfraniad mwy o lawer o ran hyrwyddo cynhwysiant ariannol – yn amodol ar gael yr adnoddau cywir ac ymrwymiad gan Lywodraeth y DU.

[4] 'Cost of cash', Llais Defnyddwyr Cymru (Tachwedd 2009)

Rydym ni'n cefnogi'n frwd ymrwymiad Llywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf i ddatblygu undebau credyd yng Nghymru. Rhaid canmol y ffaith i aelodaeth dyfu tua 60% dros y 5 mlynedd diwethaf. **Credwn, fodd bynnag, y byddai'n amserol cynnal asesiad llawn o'r graddau y mae undebau credyd ledled Cymru yn gallu cyflawni rhai o'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Ddiwygiedig ddrafft. Byddai hyn yn helpu i roi darlun mwy realistig o'r graddau mae undebau credyd unigol yn gallu hyrwyddo cynhwysiant ariannol ehangach. Byddem yn argymell bod adolygiad o'r fath yn ystyried amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys pa mor hyfyw a hygyrch ydynt ac i ba raddau mae eu seilwaith technegol yn golygu eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth bancio modern.**

Er enghraifft, rydym ni'n cefnogi'r cysyniad o gyfrifon 'pot jam' ond rydym yn pryderu am allu rhai undebau credyd yng Nghymru i allu darparu cyfleusterau o'r fath i bobl sy'n hawlio credyd cynhwysol heb fwy o fuddsoddiad ehangach i ddatblygu platfform bancio addas.

Cafodd Cyngor ar Bopeth ei ddynodi'n gorff gwarchod statudol i ddefnyddwyr swyddfa'r post ym mis Ebrill 2014. Rydym ni'n cytuno nad yw'r POca yn cynnig cyfleusterau gwneud trafodion priodol i helpu i hyrwyddo cynhwysiant ariannol ond mae llawer o ddefnyddwyr POca yn ystyried y cyfrif hwn yn werthfawr iawn. Yn ôl ymchwil ddiweddar ymhlith defnyddwyr POca a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth (sydd i'w gyhoeddi'n fuan)[5] dywedodd dau ddefnyddiwr ym mhob tri (66%) ei fod yn hanfodol ac na allent wneud hebddo, a dywedodd 22% arall ei fod yn bwysig i'r ffordd maent yn rheoli ac yn defnyddio eu harian. Mae deiliaid POca yn fwy tebygol o fod yn hŷn na chyfartaledd y boblogaeth (roedd bron i 6 ym mhob 10 o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil yn 65+ oed), ond nid oedd gwahaniaeth sylweddol mewn oedran lle'r oedd pwysigrwydd cael cyfrif o fath i bobl yn y cwestiwn.

Canfu'r ymchwil hefyd nad oes unrhyw gyfrif arall gan dros hanner defnyddwyr POca (52%) a bod bron i 3 ym mhob 10 o'r rheini sydd â chyfrif arall (29%) yn parhau i ddefnyddio'u POca fel eu prif gyfrif. Gwnaeth bron i chwarter defnyddwyr POca gyfeirio'n benodol at fydd yn Swyddfa'r Post fel rheswm dros gadw POca.

Bydd cyflwyno credyd cynhwysol yn golygu y bydd disgwyl i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr POca o oedran gweithio symud o gael budd-daliadau wedi'u talu i'w POca i gael eu talu i mewn i gyfrif trafodiadol gwahanol. Pan ofynnwyd beth

---

[5] Cynhaliwyd 1,002 o gyfweliadau wyneb yn wyneb 15 munud o hyd rhwng 6 Ionawr a 2 Chwefror 2015 gyda defnyddwyr POca yn Lloegr (634 o gyfweliadau), Cymru (193 o gyfweliadau) a'r Alban (175 o gyfweliadau). Pwysolwyd y data fel ei fod yn cynrychioli defnyddwyr POca ledled Prydain. Mae'r canfyddiadau'n gyson ar draws gwledydd Prydain.

fyddai'n bwysig pe bai'n rhaid iddynt newid o POca, dywedodd mwyafrif y defnyddwyr POca o oedran gweithio yn ein harolwg y byddent am allu parhau i ddefnyddio un o gyfrifon Swyddfa'r Post (88%) neu barhau i allu cael eu harian budd-daliadau dros gownter Swyddfa'r Post (82%).

Yn ogystal â'r newidiadau hyn, mae'r rhwydwaith swyddfeydd post ei hun yn wynebu ei raglen ailstrwythuro canghennau mwyaf, sef y 'Network Transformation programme' (NTP). Erbyn 2017/18, bydd tua hanner rhwydwaith swyddfeydd post y DU (tua 5,500 o ganghennau) yn newid i fodel gweithredu newydd – Swyddfa'r Post Leol (PO Local). Bydd hyn y gweld rhagor o wasanaethau swyddfa'r post yn cael eu cynnig mewn siopau cyfleustra, siopau cornel a gorsafoedd petrol.

Mae Cyngor ar Bopeth yn cefnogi amcanion y rhaglen ailstrwythuro, sydd wedi addo sicrhau rhwydwaith mwy cynaliadwy o ganghennau, a changhennau sy'n agor gyda'r nos ac ar y penwythnos, ond mae ein hymchwil fwyaf diweddar (sy'n olrhain safonau gwasanaethau ac amgylchedd y gangen mewn Swyddfeydd Post lleol) yn dangos bod angen gwelliannau sylweddol o hyd er mwyn gwireddu manteision y model newydd[6]. **Mae Cyngor ar Bopeth yn parhau i weithio gyda Post Office Limited (POL) i sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael blaenoriaeth yn y rhaglen i drawsnewid y rhwydwaith a bod ei ddull o gyflwyno'r rhaglen yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i ddefnyddwyr (gweler sylwadau o dan 'Mynediad at arian parod' hefyd).**

**Wrth i'r rhaglen drawsnewid fynd rhagddi bydd Cyngor ar Bopeth Cymru yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r rhwydwaith yng Nghymru pan mae'n briodol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ei rôl o ran cefnogi cynaliadwyedd y rhwydwaith swyddfeydd post yng Nghymru a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod hyn ymhellach.**

### Mynediad at arian parod

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno ei bod hi'n hanfodol bod pobl yn gallu cael gafael ar eu harian parod nhw'u hunain am ddim, yn enwedig y rheini ar incwm isel neu eraill sy'n wynebu allgáu ariannol. Rydym yn croesawu'r datblygu cadarnhaol ers 2006 i gynyddu faint o beiriannau codi arian am ddim sydd ar gael ledled y DU drwy raglen Cynhwysiant Ariannol LINK. Rydym yn poeni, fodd bynnag, fod 44 o'r 184 ardal wreiddiol yng Nghymru a nodwyd gan LINK fel rhai blaenoriaeth i gael

[6] 'Fixing the foundations: branch and service standards in Post Office Locals', Citizens Advice (September 2015)

peiriant codi arian am ddim yn dal i aros ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol a LINK i fynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

Hoffem dynnu sylw hefyd at ddadansoddiad mwy diweddar o hygyrchedd peiriannau codi arian am ddim mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru a Lloegr a gynhaliwyd gan Toynbee Hall ar ran LINK yn 2014[7].

Gan ddefnyddio meini prawf ychydig yn wahanol i'r Rhaglen Cynhwysiant Ariannol wreiddiol (h.y. mwy na 25% o ddefnyddwyr yn derbyn budd-daliadau'r llywodraeth) ac Ardaloedd Cynnyrch llai, mae LINK wedi ychwanegu **957 Ardal Gynnyrch** ychwanegol at eu hardaloedd targed. Y cyfanswm ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch yng Nghymru yw 256, gyda 211 yn dal i aros am beiriant ym mis Awst 2015[8]. **Felly credwn y dylai'r ymrwymiad yn y Strategaeth gael ei ymestyn i gynnwys yr Ardaloedd Cynnyrch newydd hyn sydd wedi'u nodi.**

Mae llawer o bobl hefyd yn dibynnu ar Swyddfa'r Post i gael gafael ar eu harian (neu dalu biliau). Mae ein gwaith ymchwil gyda defnyddwyr POca (y cyfeirir ato uchod) yn dangos pwysigrwydd gallu cael gafael ar arian parod dros gownter Swyddfa'r Post i ddefnyddwyr POca yn arbennig. Mae'r cwsmeriaid hyn yn tueddu i godi arian yn aml, a hynny mewn symiau bach - ymddygiad cyllidebu nodweddiadol ar gyfer llawer o ddefnyddwyr incwm isel, yn enwedig y rheini heb gyfrifon banc trafodiadol[9]. Canfu ein gwaith ymchwil bod bron i dri chwarter defnyddwyr POca (75%) yn codi arian dros y cownter o leiaf unwaith bob pythefnos, gyda 53 % yn gwneud hyn yn wythnosol. Yn yr un modd, mae bron i ddau ym mhob pump (39%) yn gwirio gweddill eu cyfrif dros y cownter o leiaf unwaith bob pythefnos. I rai defnyddwyr dyma'r unig ffordd o gael gafael ar eu harian parod. Dywed dros hanner yr holl ddefnyddwyr POca (56%) nad ydynt yn defnyddio peiriannau codi arian i godi arian [10], er bod defnyddwyr iau (44 oed ac iau) yn fwy tebygol o ddefnyddio peiriannau codi arian.

Mae'r ddibyniaeth hon ar wasanaethau dros y cownter yn golygu bod canfyddiadau ymchwil ddiweddaraf Cygnor ar Bopeth i Swyddfeydd Post Lleol[11] yn peri mwy fyth o bryder. Mewn 9% o ymweliadau, nid oedd siopwyr cudd wedi gallu codi arian neu nid oeddent wedi gallu codi'r swm llawn. Dywedodd staff y cownter mai'r rheswm

[7] 'How far is too far? Is there low income consumer detriment from gaps in free-to-use ATM provision', Toynbee Hall (http://www.link.co.uk/SiteCollectionDocuments/Toynbee_Hall_Full_Report.pdf)
[8] Mae Ardaloedd Cynnyrch gryn dipyn yn llai nag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (tua 5:1) ac mae rhywfaint o orgyffwrdd â'r rhaglen wreiddiol.
[9] 'Opportunity knocks: banking solutions for low-income consumers at the Post Office', Consumer Focus (2010): gweler troednodyn 7 hefyd
[10] Dim ond peiriannau codi arian Swyddfa'r Post/Bank Of Ireland gall defnyddwyr POca eu defnyddio.
[11] Gweler troednodyn 6

am hyn oedd nad oeddent yn cynnig y gwasanaeth; dim ond 'cashback' oedd ar gael yn y gangen; neu fod hyn ond yn bosibl pan roedd aelodau enwebedig o staff yn gallu cael arian o'r sêff.

Rydym ni hefyd yn ymwybodol o nifer fach o achosion yng Nghymru lle nad yw peiriant codi arian mewn Swyddfa'r Post wedi cael ei drosglwyddo i adeilad newydd fel rhan o'r NTP.

Mae Cyngor ar Bopeth yn galw ar POL i flaenoriaethu cysondeb a dibynadwyedd canghennau Swyddfa'r Post Lleol wrth gyflawni'r NTP yn strategol, ac am welliannau yn y ffordd mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno fel bod ganddi adnoddau priodol a'i bod yn cael ei goruchwylio'n strategol yn briodol.

Gyda hyn yn effeithio ar bron i hanner y rhwydwaith, bydd hi'n hanfodol bod Swyddfeydd Post Lleol yn gallu ymateb i anghenion bancio, arian parod a thalu biliau defnyddwyr. **Felly byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Post Office Limited a monitro effaith yr NTP ar faint o wasanaethau bancio, peiriannau codi arian am ddim a gwasanaethau arian parod dros y cownter sydd ar gael ledled Cymru.**

**Opsiynau benthyg a chredyd**

Canfu gwaith ymchwil Llais Defnyddwyr Cymru[12], y soniwyd amdano'n flaenorol, fod llawer o bobl sy'n byw ar incwm isel yn aml yn ofni mynd i ddyled. Serch hyn, roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd dewis ganddynt yn aml ond benthyg bob hyn a hyn i'w helpu gyda chostau byw bob dydd/talu biliau; problemau llif arian a chostau annisgwyl. Roedd llawer yn dibynnu'n drwm ar aelodau'r teulu am gredyd. Oherwydd eu lefel incwm neu eu hanes credyd gwael, roedd y rhan fwyaf yn ei chael hi'n anodd cael credyd gan ddarparwyr prif ffrwd. Mae natur benthyciadau prif ffrwd, h.y. ad-daliadau misol a methu â benthyg symiau bach, yn golygu hefyd nad yw cynhyrchion o'r fath yn addas i fwyafrif y bobl ar incymau isel.

Mae darparwyr credyd cost uchel, fel benthycwyr diwrnod cyflog; cwmnïau credyd cartref, ac adwerthwyr credyd (e.e. Brighthouse) yn aml yn cael eu hystyried yn fwy hygyrch a fforddiadwy; yn enwedig gan eu bod yn gallluogi pobl i fenthyg symiau bach yn y fan a'r lle, neu brynu cynhyrchion ar unwaith, ac yna ad-dalu benthyciadau drwy randaliadau wythnosol llai.

[12] 'Cost of cash', Llais Defnyddwyr Cymru (Tachwedd 2009)

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ymwybodol iawn o gost uwch benthyca fel hyn ond mae'r manteision byrdymor yn gwrthbwyso unrhyw anfanteision/pryderon mwy hirdymor.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r effaith y mae newidiadau i reoleiddio ariannol wedi ei chael ar rai mathau o gredyd cost uchel, a benthyciadau diwrnod cyflog yn arbennig. Ers mis Ionawr 2015, pan ddechreuodd y rheoliadau newydd gael eu cyflwyno, mae Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru wedi gweld gostyngiad graddol yn nifer y problemau'n ymwneud â benthyciadau diwrnod cyflog. Rhwng Ebrill a Medi 2015 mae problemau o'r fath wedi gostwng 42% o gymharu â'r un cyfnod yn 2014. Tra bod y datblygiadau hyn i'w croesawu'n fawr, **rydym yn pryderu bod yna 'flwch cyflenwad' o hyd mewn opsiynau amgen fforddiadwy a bod pobl yn dal i deimlo nad oes dewis ganddynt ond troi at fathau eraill o gredyd cost uchel.**

Rydym yn croesawu'r ymchwil sy'n cael ei chynnal gan Sefydliad Young ar hyn o bryd i ennyn gwell dealltwriaeth o ddewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr credyd cost uchel yng Nghymru a'n gobaith yw y bydd y canfyddiadau'n helpu i lywio camau gweithredu yn y dyfodol i gynorthwyo pobl ar incwm isel i gael gafael ar gredyd fforddiadwy.

Fel y nodwyd yn ein hymateb cynharach, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu undebau credyd yng Nghymru.

Fel darparwyr gwasanaethau, mae Cyngor ar Bopeth lleol ac undebau credyd yn rhannu llawer o'r un amcanion a grŵp cleientiaid tebyg. Rydym ni hefyd yn wynebu heriau tebyg. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli galw yn erbyn gallu, yr angen i gadw ffocws cymunedol ac i sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn gynaliadwy. O ganlyniad, mae perthynas dda ar y cyfan rhwng Cyngor ar Bopeth lleol ac undebau credyd. Er hynny, rydym yn parhau i edrych am ffyrdd o wella sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd. Gallai hyn gynnwys cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd, datblygu dealltwriaeth y naill o'r gwasanaethau sydd ar gael gan y llall, a gwella llwybrau cyfeirio.

**Cytunwn fod undebau credyd yn chwarae rhan bwysig o ran gwella mynediad at gredyd fforddiadwy yng Nghymru, ond nid ydym o'r farn mai nhw, na benthycwyr di-elw eraill, fel Moneyline Cymru, yw'r unig ateb. Mae angen rhagor o ddewis y pen hwn o'r farchnad fel bod pobl â'r adnoddau ariannol prinnaf yn gallu siopa o gwmpas yr un fath â chwsmeriaid eraill.**

Mae'r risg o fethu ag ad-dalu'r benthyciad hefyd yn uwch o lawer ymhlith pobl ag incwm wythnosol isel neu gyfyngedig. Er enghraifft, yn y farchnad credyd cartref, os

yw cwsmeriaid yn talu chwech ad-daliad ym mhob deg yn brydlon maent yn cael eu hystyried yn 'dalwyr da'. Mae gallu benthycwyr y trydydd sector i amsugno dyled wael yn gyfyngedig tu hwnt, sy'n golygu bod cystadlu ar yr un sail â'r diwydiant credyd cartref bron yn amhosibl ac, ar y gorau, yn anghynaliadwy mewn llawer o gymunedau.

**Mae Cyngor ar Bopeth o'r farn bod angen gwneud mwy i annog banciau a chymdeithasau adeiladu prif ffrwd i ddarparu cynhyrchion credyd fforddiadwy byrdymor sy'n gweddu'n well i anghenion y rheini ar incymau isel, fel yn achos cyfrifon banc sylfaenol. Rydym yn cydnabod nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r mater hwn a byddem yn croesawu ymrwymiad yn y Strategaeth i'r perwyl hwn.**

Ddechrau 2014 cynhaliodd Cyngor ar Bopeth Cymru arolwg ad hoc i ddysgu mwy am brofiadau defnyddwyr a chynghorwyr (o Cyngor ar Bopeth lleol a sefydliadau eraill) wrth gael mynediad at Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru yn ystod ei blwyddyn gyntaf ar waith[13]. Yn ôl ein hymchwil, cymysg oedd safbwyntiau a phrofiadau ynghylch cael mynediad at y gronfa ac roedd nifer o feysydd lle'r oedd pobl o'r farn y gellid ei gwella, fel yr angen am hysbysebu gwell, symleiddio elfennau penodol o broses ymgeisio, ac ailfeddwl y ffordd y mae benthyciadau cyllidebu yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cael eu hyrwyddo fel dewis amgen i'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Ers hynny, mae gwelliannau parhaus wedi'u gwneud i'r cynllun ac mae dysgu wedi'u dysgu a bod yn sail i weithredu. Dros y misoedd diwethaf rydym ni hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Rheolwyr y Cynllun ar welliannau pellach. Mae hyn wedi cynnwys cyfrannu at ddatblygu Canllaw i Bartneriaid sy'n helpu i esbonio beth mae bod yn bartner i'r Gronfa yn golygu, ar gyfer y sefydliadau eu hunain a'r cleientiaid maent yn eu cynorthwyo. Edrychwn ymlaen ar barhau gyda'r gwaith hwn dros y misoedd nesaf.

Un o ganfyddiadau pwysicaf ein hymchwil oedd pa mor werthfawr yw cael system cymorth brys Cymru-gyfan fel y Gronfa i fwyafrif y cynghorwyr a defnyddwyr. Yn hollbwysig, dangosodd yr ymchwil yr effaith andwyol y gallai naill ai cael gwrthod cymorth neu absenoldeb cronfa o gwbl ei chael ar iechyd a llesiant pobl. **Mae Cyngor ar Bopeth o'r farn ei bod hi'n hollbwysig cael trefniant mwy hirdymor i roi cymorth ariannol i bobl yng Nghymru sy'n wynebu argyfwng neu galedi arbennig, ac mae'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i barhau â'r**

[13] 'Discretionary Assistance Fund Briefing, Cyngor ar Bopeth Cymru (Mawrth 2015)

**Gronfa Cymorth Dewisol gydol tymor nesaf y Cynulliad. Credwn hefyd y dylai'r Gronfa gael ei chadw fel rhaglen genedlaethol.**

Rydym hefyd wedi clywed yn anffurfiol fod galw ar y Gronfa wedi bod yn cynyddu'n ddiweddar oherwydd oedi gyda budd-daliadau. Canfu ymchwil ddiweddar gyda chleientiaid credyd cynhwysol a gynhaliwyd gan un ar bymtheg Cyngor ar Bopeth lleol (yn cynnwys Sir y Fflint)[14] fod llawer o hawlwyr yn gorfod aros yn hirach o lawer na'r amser aros 'safonol' o 5-6 wythnos am eu taliad CC cyntaf. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at yr effaith negyddol y gall oedi o'r fath ei chael ar fywydau hawlwyr, yn enwedig eu sefyllfa ariannol, eu hiechyd a'u llesiant, a'u gallu i chwilio am waith. Mae cyfres o broblemau strwythurol a gweinyddol wedi'u nodi fel gwraidd yr oedi.

Gyda bron i bob canolfan waith leol yng Nghymru yn derbyn rhai ceisiadau credyd cynhwysol erbyn hyn, mae'r pwysau ar y Gronfa'n debygol o gynyddu ymhellach. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau rheolaidd gyda DWP am gyflwyno CC ledled y wlad ac mae pryderon eisoes wedi'u codi ynghylch y galw ychwanegol ar gronfeydd fel y Gronfa Cymorth Dewisol. **Byddem yn annog Llywodraeth Cymri i barhau i godi'r materion hyn gyda DWP. Byddwn yn parhau i ddarparu unrhyw dystiolaeth bellach o'r materion sy'n cael eu codi gan Cyngor ar Bopeth lleol ynghylch cyflwyno CC yng Nghymru i Lywodraeth Cymru.**

**Rhwyd arbed ariannol – cynilion ac yswiriant**

Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru[15] yn haf 2014, roedd chwarter o'r rheini a oedd yn gweithio ac yn talu rhent neu a oedd â morgais (25%) yn dweud na fyddent yn gallu talu eu costau tai o gwbl pe baent yn colli eu gwaith yn y mis nesaf gan nad oedd ganddynt unrhyw ddarpariaeth ariannol, fel cynilion neu yswiriant, i ddiogelu eu hunain mewn sefyllfa o'r fath. Roedd hyn yn codi i draean bron o'r rheini o radd gymdeithasol C2DE (32%). Byddai 18% arall yn gallu cadw i fyny â'r taliadau am hyd at fis yn unig.

Canfu'r un ymchwil fod 28% o oedolion yng Nghymru wedi rhoi'r gorau i gyfrannu at gynilion oherwydd eu sefyllfa economaidd gyfredol, gyda bach iawn o wahaniaeth ar draws graddau cymdeithasol.

[14] 'Waiting for credit: the delivery of universal credit as experienced by Citizens Advice clients in England and Wales' (Tachwedd 2015)
[15] Arolwg ar-lein YouGov. Cyfanswm y sampl oedd 1,003 o oedolion. Cynhaliwyd gwaith maes 23 – 26 Gorffennaf 2014. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Cymru (18+ oed).

Canfu ymchwil mwy diweddar gan MAS[16] fod ychydig dros hanner oedolion oedran gweithio yng Nghymru (53%) yn arbed ychydig o arian bob mis/bron bob mis, er mai dim ond chwarter (25%) sydd â chynilion sy’n gyfwerth â 3 mis neu fwy o incwm yr aelwyd. Roedd y ffigurau hyn yn gostwng yn sylweddol ar gyfer pobl sy’n derbyn budd-daliadau a fydd yn cael eu symud i’r credyd cynhwysol (yn cynnwys y rheini sy’n derbyn credydau treth ar hyn o bryd), i 39% yn achos y canfyddiad cyntaf a 18% yn achos yr ail. Gwyddom o ymchwil arall[17] fod y rhan fwyaf o bobl sy’n byw ar incymau isel yn cydnabod gwerth cael rhwyd arbed ariannol, fel cynilion, ond bod bywyd go iawn ar incwm isel yn aml yn golygu nad yw cynilo hyd yn oed swm bach yn fforddiadwy.

Er bod fforddiadwyedd yn rhwystr allweddol i lawer o bobl **rydym yn cefnogi camau gweithredu Llywodraeth Cymru sy’n helpu pobl i gynilo mwy, yn enwedig y rheini ar incymau isel. Mae hyn yn cynnwys gwaith gydag undebau credyd a chyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat i annog pobl i fanteisio ar ddidyniadau o’r gyflogres.**

Mae amrywiaeth o gynhyrchion ar gael sy’n ceisio bodloni gofynion defnyddwyr incwm isel, yn cynnwys cyfrifon cynilo undebau credyd a chynhyrchion yswiriant cynnwys y cartref penodol sy’n cael ei gynnig gan ddarparwyr tai cymdeithasol, ond cymharol ychydig o bobl sy’n manteisio ar y cynhyrchion hyn. Gan ddilyn y thema yn ein hymateb drwyddo draw, **rydym hefyd o’r farn bod gwerth cael rhwyd arbed ariannol, boed trwy gynilion, cynhyrchion yswiriant penodol neu bensiwn personol, yn rhywbeth y dylid parhau i’w hyrwyddo drwy raglenni gallu ariannol a chyngor ar arian.**

Fel y sonnir yn y Strategaeth, gwasanaeth yw Pension Wise a gafodd ei sefydlu ym mis Ebrill 2015 ac sy’n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU i roi arweiniad am ddim ar bensiynau i bobl dros 50 oed sydd â phensiwn cyfraniad diffiniedig. Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnal y sesiynau arweiniad wyneb yn wyneb sy’n rhan o’r gwasanaeth hwn mewn dros 50 o leoliadau ledled Cymru ar hyn o bryd.

Roedd y rhyddid pensiwn a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015 yn dileu’r gofyniad effeithiol i ddefnyddwyr brynu cynnyrch gwarantu incwm gyda’u pensiwn cyfraniad diffiniedig. Roedd hyn yn creu mwy o ddewis o lawer i ddefnyddwyr dynnu eu cynilion mewn ffyrdd sy’n gweddu i’w hamgylchiadau personol.

---

[16] ‘Arolwg galluogrwydd ariannol Cymru 2015’, Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (Tachwedd 2015)
[17] ‘Cost of cash’, Llais Defnyddwyr Cymru (Tachwedd 2009)

Mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth[18] ymhlith pobl yn eu 50au a 60au sydd â phensiynau cyfraniad diffiniedig ond sydd heb ddechrau gwneud cynlluniau pendant i'w tynnu, yn dangos pa mor ansicr a dryslyd y mae pobl teimlo mewn perthynas â'u pensiwn. Nid oes gan lawer o ddefnyddwyr ddealltwriaeth gadarn o sut bydd eu cynilion pensiwn yn troi mewn i incwm ymddeol. Yn hytrach, maen nhw'n nesáu at eu hymddeoliad gan obeithio y byddant yn gallu ymdopi ar eu hincwm yn y pen draw, yn hytrach na theimlo eu bod yn gallu addasu lefel eu cynilion i dargedu'r incwm ymddeol maent ei eisiau. Mae'r adroddiad yn nodi tri phrif reswm dros hyn:

- blaenoriaethau eraill mewn bywyd wrth i bobl nesau at ymddeoliad (yn enwedig cyfrifoldebau gofalu);
- ffrydiau incwm ymddeol cymhleth sy'n creu ansicrwydd sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl wybod pa incwm y dylent ei ddisgwyl a faint (a sut) y dylent gynilo;
- diffyg dealltwriaeth o sut mae pensiynau'n gweithio neu amharodrwydd i ymwneud â rhywbeth nad ydynt yn ei weld fel blaenoriaeth ar y pryd.

Mae ein hadroddiad yn mynd ymlaen i ddisgrifio pwyntiau sbarduno penodol a allai wneud i ddefnyddwyr gymryd mwy o ddiddordeb yn eu pensiynau, yn cynnwys cael eu hannog i gynilo gan eu cyflogwr neu aelodau'r teulu. Mae cyflwyno cofrestru awtomatig yn ddiweddar yn fesur pwysig i'w groesawu sy'n helpu rhagor o bobl i gynilo, ond mae Cyngor ar Bopeth o'r farn bod hyn yn annhebygol o fod yn ddigon. Bydd angen sbardunau cryfach (fel cynnydd awtomatig ar gyfer cynilion pensiwn[19]) yn y dyfodol er mwyn codi cyfraddau cynilo. Bydd rôl cyflogwyr yn parhau i fod yn hollbwysig.

Mae gan ddefnyddwyr eu sbardunau eu hunain i dynnu eu cynilion pensiwn. Canfu ein hymchwil y byddai mwy na un defnyddiwr ym mhob pedwar (26%) yn disgwyl tynnu eu pensiwn yn gynnar pe bai newid yn eu hiechyd a byddai un ym mhob pump (20%) yn ei dynnu pe baent yn colli eu gwaith. Roedd dros hanner y defnyddwyr (53%) hefyd yn teimlo'n gryf y byddent eisiau cymorth gan arbenigwr cyn tynnu eu hincwm pensiwn. **Felly mae gwybodaeth, cyfarwyddyd a chyngor o ansawdd da yn hollbwysig i helpu defnyddwyr gyda'u dewisiadau.**

Yn ein hymateb i 'Financial Advice Market Review' Llywodraeth y DU mae Cyngor ar Bopeth yn galw am i ddefnyddwyr  allu cael gafael ar gymorth gyda'u pensiynau gydol eu hoes, ac nid dim ond adeg troi pensiwn yn incwm ymddeol. Fel gyda sawl

[18] 'Approaching retirement', Cyngor ar Bopeth (Rhagfyr 2015)
[19] Mae hyn yn cyfeirio at y cynnydd graddol mewn cyfraniadau gweithwyr cyflogedig a fydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o gofrestru awtomatig dros y blynyddoedd nesaf.

math arall o gyngor arian, credwn y dylai'r cymorth pensiwn mwyaf effeithiol gael ei dargedu at bobl yn ystod adegau allweddol o'u bywydau, fel pan maent yn newid swydd neu'n cael morgais. Dylai unrhyw gyfarwyddyd a roddir i bobl ymateb i anghenion unigol a helpu i gyfeirio pobl i gyngor ariannol mwy ffurfiol pan fydd hyn yn briodol.

Gydol y Strategaeth mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio. **Rydym yn cydnabod bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Pension Wise yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd ond mae Cyngor ar Bopeth o'r farn, fel yn achos gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, y dylai'r Strategaeth gynnwys ymrwymiad mwy pendant ynghylch integreiddio'r gwaith sy'n cael ei wneud dan y brand Pension Wise, gyda gweithgareddau eraill i gefnogi'r ddarpariaeth cyngor ariannol/hyrwyddo cynhwysiant ariannol yng Nghymru.**

**C3. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wella'r broses o gael gafael ar wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled?**

Ydyn – gyda rhai amodau fel y nodir isod.

**Sylwadau:**

**Mae tystiolaeth o bob rhan o'r rhwydwaith Cyngor ar Bopeth, ynghyd â nifer o arolygon diweddar sydd wedi'u cynnal gyda phob rhan o'r boblogaeth, yn helpu i dynnu sylw at y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol am wasanaethau cyngor ar ddyled yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.**

Dyled yw'r maes cyngor ail fwyaf y mae cleientiaid yn gofyn am gymorth yn ei gylch gan Cyngor ar Bopeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn ystod 2014-15 fe helpon ni fwy na 29,700 o gleientiaid gyda mwy na 125,200 o broblemau'n ymwneud â dyled, cynnydd o 19% o gymharu â 2013-14. Yn ystod y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol hon (hyd at ddiwedd Medi 2015) rydym wedi helpu dros 13,800 o bobl gyda mwy na 58,655 o broblemau dyled, sy'n ostyngiad bach (-2%) o gymharu â'r un cyfnod yn 2014.

Yn ogystal â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu bob dydd gan ein swyddfeydd lleol, canfu ein harolwg YouGov[20] yn 2014 mai dim ond tua thraean o oedolion yng

[20] Gweler troednodyn 15

Nghymru (36%) sy'n llwyddo i dalu eu biliau a'u hymrwymiadau credyd i gyd yn ddidrafferth - roedd hyn yn disgyn i ddim ond 1 ym mhob 4 (26%) o'r rheini o radd gymdeithasol C2DE. Dywedodd mwy na phumed (22%) eu bod yn llwyddo i wneud y taliadau ond ei bod hi'n frwydr gyson neu eu bod ar ei hôl hi gyda rhai taliadau. Canfu arolwg diweddar a gynaliadwy gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol [21] fod 1 ym mhob 5 person yng Nghymru yn 'orddyledus'[22].

Fel y cyfeiriwyd yn gynharach yn ein hymateb, ac yn y Strategaeth hefyd, mae natur y problemau dyled sy'n dod i sylw Cyngor ar Bopeth lleol wedi newid hefyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae problemau gyda chredyd defnyddwyr yn parhau i fod yn niferus ond mae mwy a mwy o gleientiaid yn troi atom oherwydd eu bod ar eu hôl hi gyda biliau hanfodol y cartref. Yn ystod dau chwarter cyntaf 2015-16 rydym wedi gweld gostyngiad yn y sawl math o broblemau dyled credyd defnyddwyr, yn cynnwys cardiau credyd, benthyciadau personol a benthyciadau diwrnod cyflog. Mae cyfran y problemau'n ymwneud ag ôl-ddyledion ar filiau hanfodol y cartref (fel y dreth gyngor, rhent a dŵr) yn parhau i gynyddu fodd bynnag.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru wrthi'n cynnal ymchwil benodol i edrych yn fanylach ar y cynnydd mewn problemau ôl-ddyledion y dreth gyngor[23]. Ôl-ddyledion y dreth gyngor yw'r broblem ddyled unigol fwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd (i fyny 19% yn ystod chwe mis cyntaf 2015-16 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd). Rydym ni hefyd wedi gweld cynnydd o 20%  mewn problemau ôl-ddyledion rhent ymhlith tenantiaid cymdeithasau tai, a chynnydd o 14% mewn problemau'n ymwneud ag ôl-ddyledion ar ddirwyon llys yr ynadon a gorchmynion digolledu yn y cyfnod hwn. Mae tua thraean o'r holl broblemau ôl-ddyledion y dreth gyngor yn ymwneud â chamau gan asiantiaid gorfodi/beilïaid (ac mae'r un peth yn wir am bron i hanner y problemau'n ymwneud â dirwyon llys).

**Mae'r cynnydd yn y math hwn o broblemau dyled yn pwysleisio'r angen i edrych ar sut mae awdurdodau'r sector cyhoeddus, a sefydliadau dielw eraill, yn cynnwys cymdeithasau tai, yn rheoli dyled o'r fath. Mae hyn yn cynnwys y systemau sydd ganddynt ar waith i gyfeirio preswylwyr/tenantiaid sy'n cael trafferth talu biliau'r dreth gyngor, eu rhent neu amryw ddyledion eraill at wasanaethau cyngor ar ddyled annibynnol cyn gynted ag y bo modd.** Bydd ein gwaith ymchwil ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yn bwrw golwg bellach ar y mater

[21] 'Datganiad i'r wasg: Nid yw pedwar o bob deg o oedolion Cymru yn gwybod beth yw balans eu cyfrif banc', Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 18 Tachwedd 2015
[22] Diffiniad o hyn yw 'teimlo bod dyled yn faich drom neu fethu tri neu ragor o daliadau biliau neu ymrwymiadau credyd'
[23] Mae disgwyl i adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2016

hwn, ond mae rhai Cyngor ar Bopeth lleol wedi dweud hyd yn oed pan maent yn rhannu swyddfa gyda'r awdurdod lleol, mae cyfeiriadau at eu gwasanaeth yn gallu bod yn anghyson, sy'n golygu efallai nad yw rhai pobl bob amser yn cael yr help a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Fel y sonnir maes o law yn yr ymateb hwn, mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd hyfforddi gweithwyr cyflogedig rheng flaen i ddarparu gwasanaethau cyfeirio effeithiol.

Credwn fod modd dysgu gwersi hefyd gan ein darparwyr credyd defnyddwyr oherwydd, yn aml, mae ganddynt systemau gwell ar waith ar gyfer ymdrin â dyledwyr. Er enghraifft, defnyddio'r Datganiad Ariannol Cyffredin (CFS), sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o ddarparwyr i sicrhau bod ad-daliadau dyledion yn fforddiadwy, neu'r Datganiad Ariannol Safonol (SFS) newydd[24]. **Byddem yn argymell felly bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad yn y Strategaeth Ddiwygiedig i weithio gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru i adolygu eu harferion casglu dyled a gwneud gwelliannau lle mae eu hangen.**

**Byddai Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru, CLlLC a Cartrefi Cymdeithasol Cymru i roi hyn ar waith.**

Mae'r ystod lawn o newidiadau i fudd-daliadau sydd wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU dros y 3 blynedd diwethaf wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelwch ariannol llawer o hawlwyr budd-daliadau. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru y llynedd[25] yn edrych yn fanwl ar sut mae newidiadau i'r system fudd-daliadau yn effeithio ar bobl o ddydd i ddydd. Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi gweld newid i fwy nag un o'u budd-daliadau ac o ganlyniad roedd rhaid iddynt ymdopi ar lai o arian na chynt. Roedd oedi wrth wneud penderfyniadau neu gyda'r broses apêl a system lymach o gosbau hefyd yn golygu bod pobl yn crafu byw heb unrhyw incwm neu ar incwm tila iawn tra bod hawliadau newydd yn cael eu prosesu neu fudd-daliadau'n cael eu hatal. Roedd anawsterau ariannol diddiwedd yn golygu bod llawer yn gwneud heb yr hanfodion neu'n teimlo nad oedd dewis ganddynt ond mynd i ddyled, fel y gallent gadw i fyny â'u taliadau rhent neu gostau byw bob dydd eraill. Roedd eraill yn ei chael hi'n anodd parhau â threfniadau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â phroblemau ariannol blaenorol.

[24] Offeryn newydd yw'r SFS sy'n darparu datganiad incwm a gwariant cynhwysol, ynghyd ag un set o ganllawiau gwario. Mae wedi cael ei ddatblygu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar y cyd â nifer o randdeiliaid allweddol ar draws y sector cyngor di-elw a chredydwyr mawr. Mae disgwyl i'r wefan SFS fynd yn fyw yn 2016.
[25] 'Un dydd ar y tro', Cyngor ar Bopeth Cymru (Gorffennaf 2014)

### Astudiaeth Achos 1: Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint[26]

*Daeth Jane i Cyngor ar Bopeth i gael cymorth i hawlio PIP. Roedd y cynghorydd o'r farn y gallai Jane hawlio'r gyfradd uwch ond ni allai fynd am brawf meddygol oherwydd eu hiechyd meddwl gwael. Fe wnaeth Capita ofyn iddi fynd am brawf meddygol, fodd bynnag, felly fe wnaeth y cynghorydd wneud cais am apwyntiad gydag aelod staff benywaidd mewn cyfeiriad amgen. Gwrthodwyd y cais, felly cyflwynwyd cwyn yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd. Fe wnaeth Capita gydnabod hyn ac ymddiheuro am y ffordd roedd Jane wedi cael ei thrin. Dychwelwyd ei chais i DWP a dyfarnwyd yr elfen byw'n ddyddiol uwch o £82.30 yr wythnos iddi. Bydd hi hefyd yn derbyn cynnydd o £48.000 yr wythnos ar ei Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ac ôl-daliadau PIP o ryw £1,650.*

Mae'r dystiolaeth gan Cyngor ar Bopeth, a llawer o sefydliadau eraill ar draws y sector gwirfoddol a chyhoeddus, yn cadarnhau sut mae'r newidiadau i fudd-daliadau sydd wedi'u cyflwyno hyd yma dim ond wedi cynyddu caledi a gofid i lawer o bobl. Dros y pum mlynedd nesaf mae Llywodraeth y DU yn ceisio dod o hyd i arbedion pellach gwerth £12 biliwn yn y gyllideb les. Bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau ychwanegol yn dod i rym yn y flwyddyn neu ddwy nesaf ar yr un pryd ag y bydd dau o'r diwygiadau mwyaf – credyd cynhwysol a PIP – yn cael eu cyflwyno ar raddfa fwy o lawer.

**Mae hyn yn golygu ei bydd hi'n bwysicach nag erioed dros y blynyddoedd nesaf fod pobl sydd angen cyngor annibynnol â sicrwydd ansawdd i'w helpu i reoli'r newidiadau hyn yn gallu cael y cymorth cywir cyn gynted â phosibl.** Fel y nodir yn y Strategaeth, mae cleientiaid Cyngor ar Bopeth yn elwa hefyd ar y ffaith fod y gwasanaeth yn gallu cysylltu eu gwasanaethau cyngor ar fudd-daliadau, dyled, cynyddu incwm, gallu ariannol, cyngor ariannol a chyngor ehangach gyda'i gilydd. Mae pob un o'r rhain yn elfennau hanfodol mewn pecyn cydgysylltiedig o gyngor a chymorth.

### Astudiaeth Achos 2: Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent[27]

*Mae Judith yn fam sengl i fab deufis oed, a thri o blant h n sydd ddim yn byw gyda hi ar hyn o bryd. Ar ôl i'w phartner ladd ei hun roedd wedi troi at alcohol a chyffuriau. Mae'n cyfaddef ei hun nad oedd hi'n gallu wynebu unrhyw beth ac aeth i ddyled. Sylweddolodd ein gweithiwr achos bod Judith yn gymwys i gael gorchymyn rhyddhau o ddyled (DRO). Proseswyd y DRO ac roedd hi'n rhydd o ddyled. Cafodd hyfforddiant gallu ariannol drwy gydol y cyfnod hwn hefyd ac roedd ei merch 14 oed yn awyddus i gymryd rhan hefyd. Cafodd ei chyfeirio at wasanaeth cwnsela profedigaeth hefyd. Mae Judith bellach yn*

[26] Mae enwau wedi cael eu newid i sicrhau bod pobl yn anhysbys
[27] Mae enwau wedi cael eu newid i sicrhau bod pobl yn anhysbys

*rhydd o ddyled, gyda bron i £1,800 o ôl-ddyledion rhent wedi'u dileu, sy'n golygu ei bod wedi gallu parhau â'i thenantiaeth. Yn ogystal, cafodd dyled nad oedd yn flaenoriaeth gwerth £2,200 ei dileu. Roedd hi hefyd yn gallu cyllidebu'n well ar ôl y sesiwn gallu ariannol. O ganlyniad dywedodd ei bod yn fwy gobeithiol at y dyfodol.*

Rydym yn cydnabod bod mwyafrif y polisi lles yn nwylo Llywodraeth y DU ac yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd gan Lywodraeth Cymru hyd yma i helpu i leihau effaith diwygiadau lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru, yn cynnwys cymorth cyllido pellach ar gyfer gwasanaethau cyngor rheng flaen a pharhau i gyllido ein rhaglen cynyddu incwm Cyngor Da, Byw'n Well. **Rydym yn gwerthfawrogi'r pwysau cyllidebol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar hyn o bryd. Drwy barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru, mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydnabod canlyniadau cadarnhaol y gwasanaethau hyn i bobl sydd angen cymorth a'r gwerth am arian maent yn ei gynnig.** Mae dadansoddiad effaith a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth yn dangos sut mae pob £1 a fuddsoddir yn ein gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr yn arbed o leiaf £360 miliwn bob blwyddyn o'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, ac o leiaf £2.6 biliwn i unigolion yn sgil derbyn incwm drwy fudd-daliadau, dileu dyledion a datrys problemau defnyddwyr[28]. Ar draws y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, roedd cyfanswm yr enillion ariannol yn ystod 2014-15 yn £71 miliwn a mwy. Roedd hyn yn cynnwys bron i £40 miliwn drwy enillion budd-daliadau/credydau treth a mwy na £20 miliwn drwy ddileu dyledion.

**Astudiaeth achos 3: Cyngor ar Bopeth Powys[29]**

*Cafodd pâr oedrannus, Robert a Joy, eu darbwyllo gan gymydog i fynd i Cyngor ar Bopeth am wiriad budd-daliadau. Roeddent yn crafu byw ar incwm pensiwn cyfyngedig ac roeddent wedi gorfod rhoi'r gorau i'w car oherwydd y gost. Canfuwyd bod Robert a Joy yn gymwys i gael Lwfans Cynhaliaeth. Roedd eu hawliadau'n llwyddiannus. Cafodd Robert y gyfradd isel o'r Lwfans sef £55.10 yr wythnos (£2,865.20 y flwyddyn) a chafodd Joy y gyfradd uwch sef £82.30 yr wythnos (£4,279.60 y flwyddyn). Gan fod y ddau yn gymwys i gael Lwfans Cynhaliaeth, roedd hynny'n golygu eu bod yn gymwys i gael y premiwm ychwanegol anabledd difrifol. Yn sgil hyn roedd y pâr yn gallu hawlio Credyd Pensiwn, rhywbeth nad oeddent yn gymwys i wneud cynt. Maent yn dal i aros am benderfyniad ar eu hawliad am Gredyd Pensiwn ond yn ôl cyfrifon y cynghorydd,*

[28] 'The value of the Citizens Advice service: our impact in 2014-15', Citizens Advice (July 2015)
[29] Mae enwau wedi cael eu newid i sicrhau bod pobl yn anhysbys

*byddent yn gymwys i gael £15.92 yr wythnos mewn Credyd Pensiwn Gwarant a hefyd £17.43 yr wythnos mewn Credyd Pensiwn Cynilion.*

*Maent hefyd wedi derbyn gostyngiad llawn ar y dreth gyngor drwy dderbyn Lwfans Cynhaliaeth gyda'r Premiwm Anabledd Difrifol, gyda'u gostyngiad yn codi o £1.89 yr wythnos i £25.43 yr wythnos (arbediad o £1,224.08 y flwyddyn iddynt).*

Rydym yn croesawu llawer o'r ymrwymiadau yn y Strategaeth yn ymwneud â'r thema hon, yn enwedig datblygu Strategaeth Gwasanaethau Cyngor i Gymru (rydym ar ddeall y bydd Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yn bwrw ati gyda'r gwaith yn ystod 2016), a'r ymrwymiad i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyngor am ddim sydd â sicrwydd ansawdd yn unig.

**Dylai pob darparwr cyngor ar ddyled gael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'n arbennig o bwysig bod unrhyw gyfeiriadur a gaiff ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yn cynnwys darparwyr cyngor ar ddyled awdurdodedig yn unig. Gall cyngor ar ddyled heb ei reoleiddio achosi cryn niwed, yn enwedig i'r rheini sydd eisoes mewn sefyllfaoedd agored i niwed a/neu'r rheini sydd mewn amgylchiadau ariannol argyfyngus yn barod. Felly mae'n hanfodol sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cyngor sydd â sicrwydd ansawdd ac sy'n cael eu rheoleiddio er mwyn gofalu eu bod yn cael y cymorth mwyaf priodol i'w hanghenion.**

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi'n frwd ddatblygiad Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor i Gymru. **Credwn hefyd y dylid cyflwyno nod barcud i ategu hyn - tebyg i'r hen Nod Ansawdd Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol - fel bod y cyhoedd yn gallu adnabod darparwyr cyngor achrededig yn hawdd.**

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth i bwysigrwydd gwaith aml-asiantaeth, yn enwedig y rôl y gall gweithwyr rheng flaen yn y gwasanaeth iechyd, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau eraill yn y gymuned ei chwarae wrth nodi'r angen posibl am gyngor ffurfiol ymhlith eu cleifion, tenantiaid a chleientiaid, ac i 'gyfeirio' y rhai sydd mewn angen at ddarparwyr cyngor priodol sydd â sicrwydd ansawdd.

Mae Cyngor ar Bopeth lleol yn aml yn gweld bod llawer o bobl yn amharod i ofyn am gyngor ffurfiol nes i bethau fynd i'r pen. Cafodd yr her o annog pobl i ofyn am help yn gynharach ei amlygu mewn ymchwil ddiweddar gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol - dim ond un o bob pump ymatebwr sy'n orddyledus (21%) sydd eisoes yn gofyn am gyngor. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â gwneud hyn

oedd bod pobl yn credu y gallant ddatrys eu problemau dyled ac arian eu hunain, neu nad oeddent yn credu bod gwasanaethau cyngor yn briodol i rywun yn eu sefyllfa ariannol nhw[30].

**Felly, mae hyfforddi staff rheng flaen mewn sefydliadau allweddol i 'sylwi ar broblemau' yn rhywbeth rydym ni'n ei gefnogi'n frwd.** Bydd datblygu mecanweithiau cyfeirio priodol yn allweddol i sicrhau gwasanaeth cyfeirio effeithiol. Dylai'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor i Gymru arfaethedig (yn cael ei ategu gan system nod barcud o bosibl) helpu i roi hyder i gleientiaid, cyllidwyr a phartneriaid cyfeirio yn y cyngor a roddir gan asiantaethau cyngor achrededig.

Fel y soniwyd yn gynharach mewn perthynas â chyfarwyddyd pensiwn, mae'n debygol bod 'pwyntiau sbardun' ym mywydau pobl pan fyddai gallu cael cyngor ar ddyled a/neu arian, neu gymorth i wella'u gallu ariannol, yn debygol o fod yn arbennig o fuddiol, megis cael babi, dechrau swydd newydd, colli swydd yn sgil dileu swyddi, ymddeol, neu salwch/damwain sy'n golygu bod pobl yn gorfod rhoi'r gorau i weithio am gyfnod. **Gan adeiladu ar yr ymrwymiad i hyfforddi staff rheng flaen yn y sector iechyd, byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyfleoedd i hyrwyddo rhagor ar wasanaethau cyngor achrededig yn rhaglenni cyflogaeth a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru.**

Nodwn nad yw pob un o'r ymrwymiadau o dan yr isadran hon yn rhagnodi gwasanaethau cyngor 'â sicrwydd ansawdd'. Er ein bod yn tybio mai dyma fyddai'r achos, pryd bynnag y ceir cyfeiriad at wasanaethau cyngor o fewn ymrwymiad, credwn y dylid nodi'n ddiamwys fod hyn yn golygu gwasanaethau cyngor 'â sicrwydd ansawdd' er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth (fel gyda'r ymrwymiad yn ymwneud â chyllido).

Mae'r wefan Money Made Clear yn cael ei defnyddio fel porth i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am nifer o faterion yn ymwneud ag arian yng Nghymru ar hyn o bryd, yn cynnwys gwybodaeth am y Gronfa Cymorth Dewisol a sut i gael ati. Mae ymrwymiad yn y Strategaeth i ddatblygu'r wefan. Gan fod nifer o adnoddau ar-lein tebyg ar gael, yn cynnwys gwefannau Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol (rydym yn cydnabod mai Money Made Clear yw'r unig borth ar-lein i'r Gronfa Cymorth Dewisol), byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r wefan yn rheolaidd, i asesu'r defnydd ohoni a'i heffaith, i sicrhau ei bod yn parhau i gynnig gwerth am arian yn sgil cystadleuaeth gan adnoddau eraill.

## C4. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i feithrin dealltwriaeth a gallu ariannol?

[30] Gweler troednodyn 16

Ydyn - gweler y sylwadau isod.

**Sylwadau:**

Mae addysg ariannol yn dod yn rhan fwyfwy sylweddol o waith y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Mae bron pob Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn cynnig gwasanaethau gallu ariannol yn eu cymunedau lleol i ryw raddau ac mae sesiynau gallu ariannol yn cael eu cynnwys wrth ddarparu cyngor ar ddyled fel mater o drefn. Ers mis Ebrill 2011 Cyngor ar Bopeth Cymru sydd wedi bod â'r prif gontract hefyd i gyflwyno'r Prosiect Cyngor ar Arian wyneb yn wyneb yng Nghymru, wedi'i ariannu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Yn ddiweddar mae Cyngor ar Bopeth wedi adolygu a datblygu cyfres gyfan o adnoddau a phecynnau cymorth ar gyfer addysg ariannol sydd bellach ar gael ar ein gwefan. Mae'r adnoddau'n cwmpasu materion o fancio i gredyd i gynilo, ac mae'r pecynnau cymorth yn cynnwys adnoddau penodol yn ymwneud â diwygio lles a hyfforddiant arian digidol. Cliciwch y ddolen i wybod mwy - www.citizensadvice.org.uk/financialcapabilityresources.

Mae gwerth gwella gallu ariannol pobl wedi cael ei brofi yn ystod gwerthusiadau annibynnol o'r mentrau sydd dan ofal Cyngor ar Bopeth lleol. Dros y ddegawd ddiwethaf mae gwerthusiadau wedi dangos sut mae'r rhaglenni hyn wedi llwyddo'n gyson i helpu i wella hyder a sgiliau pobl wrth reoli arian. Nodwyd amrywiaeth o 'fanteision cymdeithasol' ehangach hefyd fel lefelau is o straen, y gallu i gynllunio ar gyfer cyflogaeth, y gallu i gadw tenantiaeth neu forgais, mwy o hyder fel defnyddiwr a'r gallu i gynorthwyo ffrindiau a theulu. Mae buddsoddi mewn rhaglenni gallu ariannol yn esgor ar enillion ariannol go iawn hefyd, nid yn unig i aelwydydd unigol ond hefyd i'r economi leol gyda'r effaith luosydd o fwy o alw am nwyddau a gwasanaethau[31].

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi'n frwd weledigaeth Llywodraeth Cymru lle mae gan bawb yng Nghymru y gallu ariannol i reoli eu harian yn dda a gwneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a diwygiadau lles parhaus (yn enwedig cyflwyno credyd cynhwysol) yn golygu ei bod hi'n bwysicach fyth i bobl fod yn wybodus am faterion ariannol.

Fel y nodwyd yn gynharach yn ein hymateb credwn fod camau gweithredu i gefnogi a hwyluso newid yn ymddygiad ariannol pobl yn elfen hollbwysig o'r broses hon.

---

[31] 'From small change to lasting change: Financial Skills for Life 2002-2012', Cyngor ar Bopeth a Prudential (Mai 2012)

**Felly rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru fod gallu ariannol wrth wraidd yr holl themâu eraill yn y Strategaeth.**

Cytunwn ei bod hi'n bwysig i gamau gweithredu yn Strategaeth Galluogrwydd Ariannol Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gael eu hystyried wrth gyflawni'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Ddiwygiedig ac edrychwn ymlaen at weld rhagor o fanylion ynghylch sut bydd hyn yn cael ei weithredu yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth.

Rydym yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf o ran darparu addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru ac yn cefnogi'n gryf ddatblygiadau mwy diweddar i wella safle addysg ariannol yn y cwricwlwm newydd, a hynny o fewn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac o fewn meysydd pwnc penodol yn cynnwys mathemateg.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru o'r farn bod arweinyddiaeth gref mewn ysgolion a rhoi cymorth priodol i athrawon fel y gallant ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol yn dyngedfennol i lwyddiant gwella ymhellach sut mae addysg ariannol yn cael ei haddysgu mewn ysgolion. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod gan bob athro allu ariannol ei hun. Mae cynhyrchion a gwasanaethau ariannol newydd hefyd yn golygu bod anghenion gallu ariannol yn faes sy'n esblygu ac mae angen cynnal lefelau sgiliau a chymhwysedd. **Gan y bydd wastad anghenion hyfforddi parhaus ar gyfer pobl sy'n darparu addysg ariannol, byddem yn croesawu rhagor o fanylion yn y Cynllun Cyflawni ynghylch sut bydd y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg yn darparu hyfforddiant a chymorth o'r fath.**

Yn ein hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)[32] arfaethedig, nodwyd ein pryder am y diffyg monitro a gwerthuso o ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd, yn ogystal â diffyg dealltwriaeth o ba ymyriadau gallu ariannol sy'n gweithio orau, yn enwedig yn y tymor canolig i'r tymor hir.

**Credwn felly y dylid talu sylw arbennig i ddau o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sef yr angen i gynyddu cysondeb addysg ariannol ym mhob amgylchedd dysgu yng Nghymru, a'r angen hefyd i werthuso ymyriadau gallu ariannol i greu meincnod ar gyfer cymharu ymyriadau a gweld beth sy'n gweithio'n dda.**

Yn y cyfamser rydym yn croesawu ymrwymiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'w gwneud hi'n ofynnol i Estyn gynnal adolygiad o ansawdd darpariaeth addysg

[32] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s31105/CYPE4-23-14%20-%20Papur%203.pdf

ariannol mewn ysgolion o flwyddyn academaidd 2016-17 ymlaen, i fonitro effaith newidiadau i'r cwricwlwm (yn enwedig mewn mathemateg) a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn cynnwys y rhai a ddaeth i rym ym mis Medi 2015.

Mae Cyngor ar Bopeth lleol mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflwyno sesiynau gallu ariannol mewn ysgolion ac, fel y nodwyd yn y Strategaeth, pan mae hyn wedi'i wneud mae adborth gan ddisgyblion ac athrawon yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn gallu bod yn anwadal ac mae cyfyngiadau cyllidwyr hefyd yn gallu golygu bod rhaid targedu gwaith o'r fath at grwpiau eraill, er enghraifft, oedolion heb waith neu rieni sengl. Bydd lefelau ymgysylltiad yn dibynnu'n aml ar adnoddau yn y Cyngor ar Bopeth lleol unigol.

O ganlyniad, mae nifer y canolfannau Cyngor ar Bopeth lleol sy'n cynnig sesiynau gallu ariannol mewn ysgolion yn llai o lawer na'r rheini sy'n gweithio gydag oedolion mewn lleoliadau cymunedol. Ar y cyfan mae llawer o'r gwaith hwn yn ad hoc ac yn ymateb i wahoddiad gan ysgolion, er bod rhai Cyngor ar Bopeth yn mynd ati i gysylltu ag ysgolion. **Byddem yn croesawu'r cyfle i ehangu'r gwaith mae Cyngor ar Bopeth lleol yn ei wneud gydag ysgolion i helpu i gyflwyno addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm. Yna byddai modd gwerthuso unrhyw gynlluniau peilot posibl i helpu i lywio'r hyn sy'n gweithio orau. Byddai angen cyllid ychwanegol, fodd bynnag, i alluogi pob swyddfa leol unigol i reoli unrhyw gynnydd yn y galw am y gwasanaethau hyn.**

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd o'r farn bod angen gwneud mwy i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn lleoliadau cymunedol, yn enwedig ar gyfer rhieni (i gefnogi'r gwaith mewn ysgolion), ac oedolion sy'n fwy tebygol o wynebu anfantais.

Ar hyn o bryd mae Cyngor ar Bopeth lleol yn cynnal sesiynau gallu ariannol sy'n targedu amrywiaeth o grwpiau gwahanol - yn cynnwys y rheini ar incwm isel; aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio am dâl; pobl ddigartref neu mewn cartrefi ansicr; pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor; pobl â phroblemau iechyd meddwl; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a gweithwyr mudol. Fel yn achos ein gwaith gydag ysgolion, mae rhaglenni fel hyn yn gallu bod yn ddibynnol ar ffrydiau ariannu ansicr neu'n targedu grwpiau penodol yn unig. **Rydym yn gobeithio y bydd camau gweithredu yn y Strategaeth, ynghyd â gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o Strategaeth Galluogrwydd Ariannol Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, yn helpu i ddarparu dull strategol, mwy cydgysylltiedig o gyflwyno addysg ariannol ledled Cymru, a hynny mewn ysgolion ac yn y gymuned.**

**Mae sefydliadau ariannol wedi bod yn allweddol o ran cyllido llawer o'r rhaglenni gallu ariannol sy'n cael eu cynnal gan Cyngor ar Bopeth lleol, ac felly mae'n parhau. Fel y soniwyd yn ein hymateb i gwestiwn 2, credwn fod ganddynt rôl allweddol o ran darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Felly rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth i weithio gyda sefydliadau'r sector preifat i'w hannog i noddi prosiectau addysg/gallu ariannol yng Nghymru, a byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i weithio at gyflawni'r amcan hon.**

Rydym hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth yn y Strategaeth o'r anghenion cymorth ychwanegol a allai fod gan rai plant a phobl ifanc mewn gofal. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru yn 2010[33] yn cadarnhau pwysigrwydd rhoi addysg ariannol glir ag iddi strwythur da i bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ymhell cyn iddynt symud o ofal i fyw'n annibynnol. Fe wnaeth yr ymchwil ganfod tystiolaeth o arfer da ond roedd y canfyddiadau'n dangos hefyd fod effeithiolrwydd darpariaeth gwybodaeth ariannol gan awdurdodau lleol yn ymddangos yn gyfyngedig ac yn anghyson mewn llawer o achosion.

Mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal awdurdod lleol yn fwy tebygol o lawer o fyw'n annibynnol yn ifanc o gymharu â'u cyfoedion. Credwn ei bod hi'n hollbwysig bod anghenion gallu ariannol y bobl ifanc hyn yn cael eu hystyried gydol eu hamser mewn gofal, fel rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a chymorth a'u cynllun llwybr, i baratoi at yr amser y byddant yn gadael gofal. Credwn hefyd y dylai anghenion o'r fath gael eu hadolygu'n rheolaidd ar ôl i bobl ifanc droi'n 16 (e.e. 18 a 21 oed) i ganfod unrhyw anawsterau ariannol y gallent fod yn eu hwynebu a'u cyfeirio at gymorth priodol. **Er mwyn gwella cysondeb darpariaeth ledled Cymru byddem yn croesawu ymrwymiad penodol yn y Strategaeth i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol yn uniongyrchol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael addysg ariannol briodol fel rhan o'u cynllun gofal. Bydd hi'n gwbl hanfodol hefyd fod gan yr adnoddau a ddefnyddir 'sicrwydd ansawdd' a bod unrhyw sesiynau penodol dan ofal ymarferwyr priodol a medrus er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth anghywir.**

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno bod camau gweithredu i hyrwyddo addysg a chynhwysiant digidol yn gallu cynyddu gallu ariannol pobl. I'r rheini sy'n derbyn credyd cynhwysol mae'r angen yn fwy fyth gan y bydd disgwyl i fwyafrif yr hawlwyr wneud a rheoli eu hawliad ar-lein.

[33] 'From care to where? How young people cope financially after care', Llais Defnyddwyr Cymru (Mawrth 2011)

Canfu astudiaeth fawr o gleientiaid 'perthnasol i gredyd cynhwysol' a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth yn 2013[34] fod dau o bob tri o'r cyfranogwyr (66%) methu mynd ar-lein i reoli hawliad yn y cam asesu cychwynnol. Yn dilyn cymorth gan eu Cyngor ar Bopeth lleol, roedd mwy na chwech ym mhob deg (62%) wedi gwella'u sgiliau a galluoedd yn y maes hwn.

Ar hyn o bryd mae nifer y cleientiaid yng Nghymru sy'n gofyn am gymorth gyda phroblem credyd cynhwysol yn gymharol isel o hyd (cafodd 215 o gleientiaid gymorth gyda 348 o broblemau credyd cynhwysol rhwng Ebrill a Medi 2015). Wrth i gredyd cynhwysol barhau i gael ei gyflwyno, fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif y bydd tua hanner cleientiaid bob dydd Cyngor ar Bopeth yn cael eu heffeithio gan y newid i gredyd cynhwysol (h.y. y rheini sy'n derbyn un o'r budd-daliadau sy'n cael eu heffeithio ar hyn o bryd). Rydym yn rhagweld mai atom ni y bydd llawer o'r rhain yn troi gyntaf wrth iddynt ymdrin â'r newid. Bydd gan y galw hwn oblygiadau arwyddocaol ar gyfer ein gwasanaeth. Mae canlyniadau'r astudiaeth uchod yn dangos sut mae ein cyngor a chymorth (yn cynnwys cymorth cyllidebu a chymorth ar-lein), o'u cyfuno â gwasanaethau newydd wedi'u teilwra, yn gallu helpu i rymuso mwyafrif y bobl sydd angen cymorth i fod yn fwy annibynnol drwy wella eu sgiliau a'u gallu i reoli'r newid. Felly rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu adnoddau ychwanegol i asiantaethau cyngor ac eraill i helpu i hwyluso'r broses hon.

Dylid cofio hefyd nad yw'r ateb digidol yn addas i bawb. Fe wnaeth llawer o'r bobl a gymerodd ran yn ein hymchwil i effaith diwygiadau lles[35] fynegi pryder am y ddibyniaeth gynyddol ar ddarparu gwasanaethau ar-lein ac roeddent yn teimlo bod rhai pobl ag anableddau neu gyflyrrau penodol yn cael eu cosbi'n annheg wrth i fwy a mwy o wasanaethau gael eu darparu drwy'r rhyngrwyd. Roedd rhwystrau eraill a nodwyd yn cynnwys cysylltiadau band eang gwael mewn ardaloedd gwledig. **Felly er bod buddsoddi mewn gwella gwasanaethau/ymyriadau digidol yn bwysig, mae'n hanfodol nad yw hynny'n digwydd ar draul darparu cymorth drwy gyfryngau eraill, fel dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.**

**C5. Rydym yn cynnig dull cydweithredol o gefnogi cynhwysiant ariannol i bawb yng Nghymru. A ydych yn cytuno â dull cydweithredol? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ychwanegol ar gydweithio i gefnogi cynhwysiant ariannol?**

---

[34] 'Universal credit managing migration pilot: final results', Cyngor ar Bopeth (Rhagfyr 2013)
[35] Gweler troednodyn 25

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno bod cydweithio yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag allgáu ariannol yng Nghymru. Fel y soniwyd yn gynharach, mae maint yr her, yn enwedig yn sil y sefyllfa economaidd sydd ohoni ac effaith gynyddol diwygiadau lles yn golygu bod mwy o angen am ddull aml-asiantaeth na fu erioed o'r blaen. Rydym ni hefyd yn credu bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i roi'r cyfeiriad strategol sydd ei angen i helpu i gydgysylltu a hwyluso sut mae gwahanol asiantaethau yng Nghymru a phartneriaid allweddol yn y DU (fel DWP) yn gallu cydweithio'n well.

Mae gan ddarparwyr cyngor a sefydliadau eraill yn y trydydd sector rôl hollbwysig i chwarae. Yn ogystal â helpu pobl gyda phroblemau ariannol neu fudd-daliadau brys, gall cyngor amserol o ansawdd uchel hefyd helpu pobl i gadw gwaith â thâl a chadw to dros eu pennau. Ar yr un pryd mae buddsoddi mewn mesurau ataliol, fel gwasanaethau cynyddu incwm, cyngor ar arian a meithrin gallu ariannol, yn helpu pobl i, ymysg pethau eraill, hybu eu hincwm a dysgu sgiliau cyllidebu a rheoli arian, yn ogystal â darparu manteision economaidd a chymdeithasol ehangach.

Rydym ni'n bartner darparu gwasanaethau allweddol ar gyfer nifer o brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o leihau tlodi ac allgáu ariannol drwy helpu pobl i gael gafael ar y cymorth maent ei angen, yn cynnwys Cyngor Da, Byw'n Well, prosiect Canlyniadau Cyffredin Cymunedau yn Gyntaf (sy'n darparu gwasanaethau allgymorth yn y gymuned ar gyfer mathau penodol o gyngor yn cynnwys dyled, budd-daliadau lles a darpariaeth gallu ariannol), yn ogystal â menter ar y cyd gyda Shelter Cymru i roi cyngor arbenigol ar ddyled, budd-daliadau a thai i helpu i leihau effaith diwygiadau lles. **Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau hyn a'u canlyniadau cadarnhaol i unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol ledled Cymru.**

Wrth i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gael ei gweithredu, **bydd hi'n hanfodol i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd ar fin cael ei gyhoeddi sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n cyfrannu at lesiant pan maent yn cynnal asesiadau lleol a datblygu eu cynlluniau llesiant lleol. Dylai cynlluniau o'r fath gynnwys codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cyngor â sicrwydd ansawdd a sicrhau bod partneriaethau effeithiol yn cael eu sefydlu gyda darparwyr cyngor achrededig ym mhob ardal awdurdod lleol.** Dylai hyn gynnwys cael cynrychiolaeth gan y sector cyngor ar bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. Bydd cydnabod rôl gwasanaethau cyngor o ran hyrwyddo llesiant hefyd yn berthnasol i unrhyw fforymau partneriaeth lleol sy'n cael eu sefydlu i fwrw rhagddi â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**C6. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddrafft?**

Dim sylwadau pellach.

**C7. A hoffech roi sylwadau ar yr Asesiadau drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu ar yr Iaith Gymraeg neu roi tystiolaeth i'w cynnwys ynddynt?**

Y llynedd cyhoeddodd Cyngor ar Bopeth Cymru ganfyddiadau ymchwil a gynhaliwyd gyda siaradwyr Cymraeg rhugl i edrych ar eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector preifat [36]. Mae darparwyr gwasanaethau yn cynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae ymchwil yn dangos y byddai'n well gan 40% o siaradwyr Cymraeg rhugl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'u banc neu gymdeithas adeiladu, ond dim ond 20% sy'n gwneud hynny drwy'r amser ar hyn o bryd. Mae'r rhesymau am hynny'n gymhleth, ac yn cynnwys ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, eu profiad o'r gwasanaethau hynny, yn ogystal â rhwystrau ymddygiadol llai amlwg a allai fod yn eu ffordd. Gall y rhain gynnwys safbwyntiau negyddol am wasanaethau Cymraeg, yn ogystal ag arferion a chysylltiadau maent wedi'u datblygu â'r Gymraeg.

Mae bron i ddau ym mhob pump o'r un siaradwyr Cymraeg rhugl (38%) yn dweud bod ansawdd y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gan y banciau ar hyn o bryd yn 'wael' neu'n 'wael iawn', sy'n awgrymu bod tipyn o le i wella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael. Pan ofynnwyd i bobl pam nad oeddent yn defnyddio Cymraeg bob amser neu o gwbl wrth ymwneud â darparwyr gwasanaethau, diffyg opsiwn neu ddewis i ddefnyddio'r Gymraeg oedd y prif reswm digymell a roddwyd (yn cynrychioli 31% ar gyfer banciau a chymdeithasau adeiladu).

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru o'r farn fod y ffaith nad yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yn cwmpasu banciau'r stryd fawr yn destun dryswch ac yn dipyn o ddirgelwch. Bydd hyn yn golygu na fydd disgwyl i fanciau'r stryd fawr gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a fydd yn cael eu rhoi ar waith dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn wahanol i gwmnïau telathrebu ac ynni. **Rydym yn credu'n gryf y dylai Mesur 2011**

[36] 'Hefyd ar gael yn Gymraeg – deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg', Cyngor ar Bopeth Cymru (Mawrth 2015)

**gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at fanciau a chymdeithasau adeiladu yng Nghymru.**

Yn ein hadroddiad, rydym yn argymell bod darparwyr gwasanaethau yn gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy amlwg, fel nad Saesneg yw'r dewis diofyn bob tro. Pe bai banciau'n gwella ansawdd eu gwasanaeth Cymraeg, ac yn hysbysebu'r gwasanaethau hyn yn fwy amlwg, byddai eu cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn fwy tebygol o lawer o ddefnyddio a gwerthfawrogi'r gwasanaethau hynny yn yr hirdymor.

Mae sylwadau'n ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cynnwys yn ein hymateb i gwestiynau eraill.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Lindsey Kearton
Swyddog Polisi
Cyngor ar Bopeth Cymru
Llinell uniongyrchol: 03000 231 392

E-bost: Lindsey.Kearton@citizensadvice.org.uk